# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 11 Mawrth 2024

Amser: 10.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

## Hybrid

**1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

(10.00)

**2 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rhentwyr (Diwygio): Sesiwn dystiolaeth**

(10.00 - 10.45) (Tudalennau 1 - 24)

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd

Helen Kellaway, Cyfreithiwr, Llywodraeth Cymru

Gareth Baglow, Uwch Reolwr Polisi Tai Sector Preifat, Llywodraeth Cymru

Caroline Matthews, Uwch Gyfreithiwr, Llywodraeth Cymru

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-09-24 - Papur 1 - Nodyn briffio

LJC(6)-09-24 - Papur 2 - Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid at y Gweinidog Newid Hinsawdd, 7 Mawrth 2024

LJC(6)-09-24 - Papur 3 - Llythyr at y Gweinidog Newid Hinsawdd, 5 Mawrth 2024

LJC(6)-09-24 - Papur 4 - Llythyr at y Gweinidog Newid Hinsawdd, 22 Chwefror 2024

**Egwyl**

(10.45 - 10.50)

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(10.50 - 10.55)

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**3.1 SL(6)459 - Gorchymyn y Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2024**

(Tudalennau 25 - 26)

Gorchymyn (Saesneg yn unig)

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-09-24 - Papur 5 - Adroddiad drafft

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

**3.2 SL(6)462 - Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2024**

(Tudalennau 27 - 29)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-09-24 - Papur 6 - Adroddiad drafft

**3.3 SL(6)463 - Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2024**

(Tudalennau 30 - 31)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-09-24 - Papur 7 - Adroddiad drafft

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7

(10.55 - 11.00)

**4.1 SL(6)460 - Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Cychwyn Rhif 4, Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) 2024**

(Tudalen 32)

Rheoliadau

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-09-24 - Papur 8 - Adroddiad drafft

**4.2 SL(6)461 - Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Ddarfodol) (Diwygio) 2024**

(Tudalennau 33 - 34)

Gorchymyn

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-09-24 - Papur 9 - Adroddiad drafft

## 5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 - trafodwyd yn flaenorol

(11.00 - 11.05)

**5.1 SL(6)454 - Rheoliadau Cyd-bwyllgor Comisiynu Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2024**

(Tudalennau 35 - 38)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-09-24 - Papur 10 - Adroddiad

LJC(6)-09-24 - Papur 11 - Ymateb Llywodraeth Cymru

**5.2 SL(6)455 - Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau Terfynau Ffioedd a Benthyciadau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024**

(Tudalennau 39 - 42)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-09-24 - Papur 12 - Adroddiad

LJC(6)-09-24 - Papur 13 - Ymateb Llywodraeth Cymru

5.3 **SL(6)457 - Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2024**

(Tudalennau 43 - 48)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-09-24 - Papur 14 - Adroddiad

LJC(6)-09-24 - Papur 15 - Ymateb Llywodraeth Cymru

## 6 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(11.05 - 11.10)

6.1 **Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru: Grwpiau Rhyngweinidogol**

(Tudalennau 49 - 53)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-09-24 - Papur 16 - Llythyr gan Weinidog yr Economi: Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Cysylltiadau rhwng y DU a'r UE, 4 Mawrth 2024

LJC(6)-09-24 - Papur 17 - Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol, 5 Mawrth 2024

LJC(6)-09-24 - Papur 18 - Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol, 16 Chwefror 2024

LJC(6)-09-24 - Papur 19 - Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Y Grŵp Rhyng-Weinidogol Sero-Net, Ynni a Newid Hinsawdd, 6 Mawrth 2024

6.2 **Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Diwygio) 2024**

(Tudalennau 54 - 55)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-09-24 - Papur 20 - Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 4 Mawrth 2024

6.3 **Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Lloegr) a Rheolaethau Swyddogol (Amlder Gwiriadau) (Diwygio) 2024**

(Tudalennau 56 - 59)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-09-24 – Papur 21 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 5 Mawrth 2024

LJC(6)-09-24 – Papur 22 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 5 Mawrth 2024

## 7 Papurau i'w nodi

(11.10 – 11.15)

**7.1 Gohebiaeth gan Weinidog yr Economi: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel)**

(Tudalennau 60 – 61)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-09-24 – Papur 23 – Llythyr gan Weinidog yr Economi, 4 Mawrth 2024

**7.2 Gohebiaeth oddi wrth Gadeirydd Pwyllgor y Cyfansoddiad, Tŷ'r Arglwyddi at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol: Craffu ar Fframweithiau Cyffredin**

(Tudalennau 62 – 63)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-09-24 – Papur 24 – Llythyr oddi wrth Gadeirydd Pwyllgor y Cyfansoddiad, Tŷ'r Arglwyddi at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol, 5 Mawrth 2024 [Saesneg yn unig]

**7.3 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Deddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022**

(Tudalennau 64 – 65)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-09-24 – Papur 25 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 6 Mawrth 2024

**7.4 Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Cerbydau Awtomataidd**

(Tudalennau 66 - 67)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-09-24 - Papur 26 - Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, 6 Mawrth 2024

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.22 i ethol Cadeirydd dros dro ar gyfer y cyfarfod Pwyllgor ar 18 Mawrth 2024

(11.15 - 11.20)

## 9 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(11.20)

## 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rhentwyr (Diwygio): Trafod y dystiolaeth

(11.20 - 11.35)

## 11 Y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Adroddiad drafft

(11.35 - 12.00) (I ddilyn)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-09-24 - Papur 27 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

## 12 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Cerbydau Awtomataidd: Adroddiad drafft

(12.00 - 12.10) (Tudalennau 68 - 75)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-09-24 - Papur 28 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

## 13 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cyfiawnder Troseddol: Adroddiad drafft

(12.10 – 12.20) (Tudalennau 76 – 87)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-09-24 – Papur 29 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

LJC(6)-09-24 – Papur 30 – Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip at y Llywydd, 22 Tachwedd 2023

LJC(6)-09-24 – Papur 31 – Llythyr ar y cyd gan elusennau tai a digartrefedd yng Nghymru, 7 Mawrth 2024 [Saesneg yn unig]

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

7 Mawrth 2024

Annwyl Julie,

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rhentwyr (Diwygio)

Fel rhan o'i ystyriaeth o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rhentwyr (Diwygio) (y Bil), mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Cyllid i dynnu ein sylw at y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n gwneud y sylw a ganlyn:

> *"Ni nodwyd unrhyw oblygiadau ariannol hyd yma pe baï'r darpariaethau hyn yn gymwys yng Nghymru."*

O gofio bod y Bil yn ceisio diwygio dwy Ddeddf gan y Senedd, sef: Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019 a Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, hoffai'r Pwyllgor Cyllid wybod a ydych chi'n bwriadu darparu asesiad llawn o oblygiadau ariannol y diwygiadau y mae'r Bil yn ceisio eu gwneud i'r Deddfau hyn. Os felly, gofynnwn am gopi o'r amcangyfrifon hynny, a gofynnwn ichi egluro pam na chafodd gwybodaeth o'r fath ei chynnwys yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol pan gafodd ei osod.

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor yn ystyried goblygiadau ariannol y rhan fwyaf o Filiau a gyflwynir yn y Senedd fel mater o drefn. Er nad ydym yn craffu'n rheolaidd ar oblygiadau ariannol darpariaethau ym Miliau'r DU sy'n effeithio ar feysydd datganoledig, byddem yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ystyried cynnal asesiad ariannol o ddarpariaethau o'r fath, os byddent yn gwneud diwygiadau sylweddol i Ddeddfau'r Senedd, fel yr amlinellir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol penodol hwn, ac yn arwain at gostau sylweddol.

Yn gywir,

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Cc Huw Irranca-Davies, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

5 Mawrth 2024

Annwyl Julie,

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol - Bil Rhentwyr (Diwygio)

Yn dilyn ein gwahoddiad ar 22 Chwefror, rydym yn ddiolchgar i chi am gytuno mewn egwyddor i ddod i'r sesiwn dystiolaeth ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rhentwyr (Diwygio).

Ers hynny, mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno i'n cais i newid ein slot i sesiwn yn y bore, felly dyma gadarnhau ein bod yn gallu bwrw ymlaen â'r sesiwn dystiolaeth gyda chi rhwng 10.00 a 10.45 ddydd Llun 11 Mawrth.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Edrychwn ymlaen at gwrdd â chi ar 11 Mawrth.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd



Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

22 Chwefror 2024

Annwyl Julie,

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol - Bil Rhentwyr (Diwygio)

Ddydd Llun 19 Chwefror 2024, fe wnaethom drafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol uchod, a osodwyd yn y Senedd ar 30 Ionawr 2024.

Mae nifer o faterion pwysig yn codi o'r Memorandwm hwn yr hoffem eu codi gyda chi'n uniongyrchol mewn sesiwn dystiolaeth.

Gan hynny, hoffem eich gwahodd chi a'ch swyddogion i'n cyfarfod ddydd Llun 11 Mawrth 2024, fel y gallwn fynd i fanylion y Memorandwm a'i oblygiadau. Byddem yn ddiolchgar pe gallai eich swyddogion ymateb i Glerc y Pwyllgor fel y gellir rhoi trefniadau priodol ar waith.

Er mwyn darparu ar gyfer y sesiwn dystiolaeth hon, byddwn yn ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes yn gofyn am estyniad i'r dyddiad cau presennol ar gyfer cyflwyno adroddiad, sef 15 Mawrth 2024. Yn ein barn ni, ni ddylai newid yr amserlen greu problemau ar gyfer amseriad unrhyw gynnig cydsyniad deddfwriaethol sydd i ddilyn, gan fod y Bil Rhentwyr (Diwygio) ar hyn o bryd yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin ac nid yw wedi dechrau ei daith drwy Dŷ'r Arglwyddi eto.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych yn fuan.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

# SL(6)459 – Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2024

## Cefndir a Diben

Sefydlwyd Cynllun Masnachu Allyriadau ("ETS") y DU gan Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020 fel cynllun masnachu allyriadau nwyon tŷ gwydr ar gyfer y DU gyfan, fel ffordd gost-effeithiol o annog y sectorau pŵer, diwydiant ac awyrennau i leihau eu hallyriadau. Fe'i cynlluniwyd ar y cyd gan y pedair llywodraeth yn y Deyrnas Unedig. Mae'n cyfrannu at dargedau lleihau allyriadau a nod sero net y DU, yn ogystal â'r llwybr lleihau allyriadau yng Nghymru.

Ym mis Rhagfyr 2023, agorodd yr Awdurdod ymgynghoriad 12 wythnos o'r enw "Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU: Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim", sy'n edrych ar opsiynau i dargedu'n well y rhai sydd fwyaf mewn perygl o ddadleoli carbon ac i sicrhau bod y Dyraniad Am Ddim ("FA") o lwfansau sy'n cwmpasu allyriadau nwyon tŷ gwydr yn cael ei ddosbarthu'n deg

Mae'r Gorchymyn hwn yn ceisio newid dyddiadau'r cyfnod nesaf ar gyfer gwneud cais am ddyraniadau am ddim o'r cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin 2024, i'r cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin 2025. Mae'r Gorchymyn hefyd yn symud terfynau amser cysylltiedig eraill i ddarparu ar gyfer yr amserlen newydd.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu:

"*mae'r amserlen sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad yn golygu na fyddai'r safbwynt polisi terfynol yn glir cyn i'r cyfnod uchod ddod i ben. Felly, ni fyddai gan gyfranogwyr sicrwydd o'u cymhwystra ar gyfer FAs, na'r wybodaeth briodol i'w chynnwys mewn ceisiadau, gan ei gwneud yn anymarferol iddynt wneud cais yn ystod y cyfnod hwnnw.*"

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Gorchymyn hwn yn y Cyfrin Gyngor gan Ei Fawrhydi cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd, Senedd y DU, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon ar 23 Chwefror 2024. Caiff unrhyw un o'r deddfwrfeydd hynny ddiddymu'r Gorchymyn, yn unol â'r gweithdrefnau penderfyniad negyddol sy'n gymwys i'r deddfwrfeydd hynny.

## Materion technegol: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(ix) – nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg**

Nodwn y cafodd y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor ei wneud gan Ei Fawrhydi a'i osod gerbron pob un o'r pedair deddfwrfa yn y Deyrnas Unedig, ac felly mae yn Saesneg yn unig.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd pwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**4 Mawrth 2024**

# SL(6)462 – Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2024

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 (**y Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig**) a wnaed o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (**Deddf 2016**).

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu nad yw gwasanaeth gofal canolraddol awdurdod lleol yn cael ei drin fel gwasanaeth cartref gofal at ddibenion Deddf 2016 (ond gweler rheoliadau 3 a 4 o'r Rheoliadau hyn am gwmpas cyflawn yr eithriad hwn). Bydd gwasanaeth gofal canolraddol yr awdurdod lleol yn parhau i gael ei reoleiddio fel gwasanaeth cymorth cartref.

Ystyr "gofal canolraddol" ("intermediate care") yw'r ddarpariaeth o lety, ynghyd â nyrsio neu ofal, i oedolyn am gyfnod cyfyngedig at ddiben hybu gallu'r oedolyn i fyw'n annibynnol yn ei gartref ei hun drwy—

(a) osgoi ei dderbyn i ysbyty yn ddiangen,

(b) lleihau hyd unrhyw dderbyniad i'r ysbyty drwy alluogi ei ryddhau yn amserol,

(c) galluogi ei adferiad ar ôl ei ryddhau o'r ysbyty, neu

(d) atal neu ohirio'i dderbyn i wasanaeth cartref gofal.

At hynny, mae'r Rheoliadau yn egluro, pan fydd darparwr gwasanaeth llety yn ailgyflunio mangre, gan arwain at gapasiti cynyddol i letya pump neu fwy o bobl, bod yn rhaid i'r ystafell wely/ystafelloedd gwely ychwanegol a mannau cymunedol y gwasanaeth fodloni gofynion penodedig. Mae hyn yn cynnwys y gofyniad i gael ystafelloedd ymolchi ensuite, isafswm maint ystafelloedd gwely, lleiafswm ardal gymunedol, gofod awyr agored hygyrch ac, mewn rhai amgylchiadau, lifft teithwyr.

## Y weithdrefn

Cadarnhaol drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae rheoliad 2(1) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig ar hyn o bryd yn cynnwys is-baragraffau (a) i (j). Mae'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu is-baragraff ychwanegol ar ôl is-baragraff (j). Fodd bynnag, nid yw'r is-baragraff ychwanegol wedi'i labelu fel is-baragraff (k), yn hytrach mae wedi'i labelu fel is-baragraff (l).

Nid yw'n glir pam na ddilynwyd trefn yr wyddor wrth ychwanegu'r is-baragraff newydd ar ôl is-baragraff (j).

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Ar ddechrau'r Rheoliadau, mae cyfeiriad at y dyddiadau y caiff y Rheoliadau eu gwneud, eu gosod a'u dod i rym. Fodd bynnag, ar gyfer offerynnau cadarnhaol drafft fel y Rheoliadau hyn, y confensiwn yw cyfeirio at y dyddiadau y gwneir y Rheoliadau s phan fyddant yn dod i rym, yn unig.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae Deddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn gwneud y Rheoliadau hyn a chyhoeddi datganiad am yr ymgynghoriad. At hynny, mae Deddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod copi o'r datganiad gerbron Senedd Cymru.

Mae rhaglith y Rheoliadau hyn yn datgan bod Gweinidogion Cymru wedi gosod copi o'r datganiad hwnnw gerbron Senedd Cymru. Fodd bynnag, nid ydym yn ymwybodol bod unrhyw ddatganiad o'r fath wedi'i osod gerbron Senedd Cymru.

Byddem yn croesawu eglurder gan Lywodraeth Cymru ynghylch statws presennol y datganiad ymgynghori.

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diffino Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 fel "y Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig".

Fodd bynnag, mae'r Memorandwm Esboniadol yn diffinio Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 fel "y Rheoliadau Darparwyr Gwasanaethau".

Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r diffiniadau a ddefnyddir yn y Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol yn gyson.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru i bwyntiau adrodd 1 i 3.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**5 Mawrth 2024**

# SL(6)463 – Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2024

## Cefndir a Diben

Gwneir Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2024 o dan bwerau a roddwyd o ganlyniad i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("y Ddeddf Ymadael") i ddiwygio deddfwriaeth ym maes iechyd planhigion a ffioedd iechyd coed.

Mae'r offeryn yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018 a Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019 sy'n gymwys o ran Cymru. Mae'n alinio ffioedd ar gyfer planhigion a chynhyrchion planhigion â'r newid yn amlder y gwiriadau a gynhelir ledled Prydain Fawr ar ôl rhoi Model Gweithredu Targed y Ffin (TOM) ar waith. Bydd yr offeryn yn diwygio hefyd y ffioedd sy'n gysylltiedig â gwirio dogfennau o ganlyniad i newid gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol.

Mae'r newidiadau i ba mor aml y cynhelir gwiriadau a chyflwyno gwiriadau sy'n seiliedig ar risg ar nwyddau risg canolig a fewnforir o aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein a'r Swistir, o 30 Ebrill 2024 yn ganlyniad Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Lloegr) a Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) (Amlder Gwiriadau) (Diwygio) 2024.

Bydd y Rheoliadau hyn hefyd yn cywiro gwall yn Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018 a wnaed yn Atodlen 1 o Reoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2022 ble codwyd nifer o ffioedd ar lwythi cymysg. Bwriad y polisi oedd rhoi pob categori o blanhigyn sydd i'w blannu mewn un categori, ond arweiniodd y ddeddfwriaeth at gam godi ffioedd, yn ôl categori yn hytrach nac yn ôl llwyth. Bydd y diwygiad yn sicrhau bod pob categori o blanhigyn sydd i'w blannu mewn un categori, a bydd hyn yn sicrhau mai dim ond un ffi unffurf fydd yn cael ei chodi ar lwythi o blanhigion sydd i'w plannu.

## Y weithdrefn

Cadarnhaol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2 (vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.**

Yn rheoliad 2(3), yn yr Atodlen 1 newydd, yn y cofnod ar gyfer "Pyrus", yng ngholofn 2, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'r rhestr o wledydd sy'n dechrau gyda "Any third country other than..." yn gorffen gyda "Liechtenstein, **South Africa or** Switzerland". Mae'r wlad "De Affrica", fodd bynnag, ar goll o'r testun Cymraeg fel bod y rhestr gyfatebol o wledydd yn y cyfieithiad yn gorffen gyda "Liechtenstein neu'r Swistir".

**2. Rheol Sefydlog 21.2 (vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.**

Yn rheoliad 2, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y geiriau mewn cromfachau ar ôl "Schedule 1", mae'r testun Saesneg yn nodi "(fees in connection with a plant passport authority)". Fodd bynnag, ystyr y cyfieithiad yn y man cyfatebol yn y testun Cymraeg yw "(ffioedd am arolygiadau mewn cysylltiad ag awdurdodiad pasbort planhigion)". Felly, mae'r testun Cymraeg yn cynnwys geiriau ychwanegol sy'n golygu "am arolygiadau" fel y gwelir ym mhennawd presennol Atodlen 1 i Reoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019.

**3. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn rheoliad 2(5), yn yr Atodlen 2B newydd, yn yr ysgwydd nodyn, mae'n cyfeirio at "Rheoliad 3(2)(a)". Dylai, fodd bynnag, gyfeirio at "Reoliad 3(2)(a) **a (b)**" oherwydd cyfeirir at Atodlen 2B yn is-baragraff (a) ac is-baragraff (b) o'r paragraff newydd (2) yn rheoliad 3 o Reoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018, a ddisodlwyd gan reoliad 2(2)(a) o'r Rheoliadau hyn.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**6 Mawrth 2024**

# Eitem 4.1

## SL(6)460 – Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Cychwyn Rhif 4, Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) 2024

### Cefndir a diben

Mae Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Cychwyn Rhif 4, Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) 2024 ("y Rheoliadau") yn dwyn i rym – ar 6 Ebrill 2024 – ddarpariaethau amrywiol o Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 ("Deddf 2022") sy'n ymwneud â'r gyfundrefn reoleiddio ar gyfer y proffesiwn rheolaeth adeiladu. At hynny, mae'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth drosiannol ac arbed.

### Y weithdrefn

Dim gweithdrefn

### Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn cysylltiad â'r Rheoliadau.

1. Mae rheoliad 2(d)(ix) yn dwyn i rym adran 53(2) a (3)(a)(ii) a (iii) a (3)(b) o Ddeddf 2022. Ymddengys mai'r pŵer galluogi perthnasol yw adran 170(4)(b)(vii) o Ddeddf 2022, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ddwyn i rym drwy reoliadau, adran 53 (ac eithrio is-adran (1) o'r adran honno) o Ddeddf 2022.

   Gofynnir, felly, i Lywodraeth Cymru a ddylai adran 170(4)(b)(vii) fod wedi'i dyfynnu fel pŵer galluogi yn y rhagymadrodd i'r Rheoliadau.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**5 Mawrth 2024**

# SL(6)461 – Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Ddarfodol) (Diwygio) 2024

## Cefndir a Diben

Gwnaed Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Ddarfodol) 2023 ("Gorchymyn 2023") ar 21 Awst 2023 ac mae'n cychwyn darpariaethau penodol o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ("Deddf 2022").

Mae Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Ddarfodol) (Diwygio) 2024 ("y Gorchymyn) yn diwygio Gorchymyn 2023 i:

- Hepgor erthygl 4(d), a fyddai'n dwyn i rym ar 1 Ebrill 2024 ddarpariaethau sy'n ymwneud ag aelod cyswllt staff y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ("y Comisiwn"), a
- Hepgor erthygl 4(e), a fyddai'n dwyn i rym ar 1 Ebrill 2024 ddiwygiadau i Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac i reoliad 3(4) o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017 a oedd yn ganlyniadol ar ddiddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Yn ôl y Nodyn Esboniadol, nid oes angen y darpariaethau hyn ar 1 Ebrill 2024 oherwydd na fydd gan y Comisiwn lawer o staff ar y dyddiad hwnnw, ac oherwydd na fydd Cyngor Cyllido Addysgu Uwch Cymru wedi'i ddiddymu ar y dyddiad hwnnw.

## Y weithdrefn

Dim gweithdrefn.

## Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn.

1. Effaith y Gorchymyn yw gohirio'r dyddiad y daw darpariaethau penodol o Ddeddf 2022 sy'n ymwneud â sefydlu'r Comisiwn a diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i rym. Nodwn fod Gweinidog y Gymraeg ac Addysg wedi cyhoeddi Datganiadau Ysgrifenedig ar 29 Tachwedd 2023 ac ar 24 Ionawr 2024 a oedd yn darparu diweddariadau o ran y Comisiwn, ond nid yw'r datganiadau hyn yn rhoi eglurhad clir ar fod angen gwneud y Gorchymyn hwn i ddirymu'r darpariaethau cychwyn penodedig yng Ngorchymyn 2023.

   Nid ydym yn sicr a yw Aelodau o'r Senedd a rhanddeiliaid perthnasol eraill wedi cael eglurhad drwy ddulliau eraill. Felly, gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro'r rhesymau dros wneud y Gorchymyn, ac yn benodol:

- Y rhesymau dros unrhyw oedi o ran staffio'r Comisiwn, a
- Y rhesymau dros beidio â diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru erbyn 1 Ebrill 2024 fel y rhagwelwyd pan wnaed Gorchymyn 2023.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**5 Mawrth 2024**

# SL(6)454 – Rheoliadau Cyd-bwyllgor Comisiynu Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2024

## Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgor Comisiynu Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2024 ("y Rheoliadau hyn") yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfansoddiad ac aelodaeth Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru ("y cyd-bwyllgor"), gan gynnwys ei weithdrefnau a'i drefniadau gweinyddol.

Bydd y cyd-bwyllgor yn disodli Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys.

Mae Cyfarwyddydau Cyd-bwyllgor Comisiynu Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2024, a wnaed ar 6 Chwefror 2024, yn darparu y bydd Byrddau Iechyd Lleol Cymru yn gweithio ar y cyd i arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â chynllunio a sicrhau gwasanaethau penodol. Er mwyn arfer y swyddogaethau hynny ar y cyd, bydd y Byrddau Iechyd Lleol yn sefydlu'r cyd-bwyllgor i fod yn weithredol ar 1 Ebrill 2024.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer—

(a) cyfansoddiad ac aelodaeth y cyd-bwyllgor (rheoliad 3),

(b) penodi cadeirydd ac aelodau nad ydynt yn swyddogion i'r cyd-bwyllgor (rheoliad 4 ac Atodlen 1),

(c) y gofynion cymhwystra ar gyfer aelodau o'r cyd-bwyllgor (rheoliad 5 ac Atodlen 2),

(d) deiliadaeth swydd, terfynu penodiad ac atal dros dro aelodau o'r cyd-bwyllgor (rheoliadau 6 i 9), ac

(e) penodi is-gadeirydd y cyd-bwyllgor a'i bwerau (rheoliadau 10 i 12).

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer rheolau sefydlog ynghylch rheoleiddio cyfarfodydd a thrafodion y cyd-bwyllgor.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn dirymu dwy set o Reoliadau.

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2024.

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan

fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y 6 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn rheoliad 2, mae'r term "aelod nad yw'n swyddog" wedi'i ddiffinio ar gyfer y Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, mae'r un term wedi'i ddiffinio'n wahanol ym mharagraff 4(6) o Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn, at ddibenion paragraff 4(5)(a) o'r Atodlen honno. Felly, dylai'r diffiniad o "aelod nad yw'n swyddog" yn rheoliad 2 esbonio i'r darllenydd nad yw'n gymwys i baragraff 4(5)(a) o Atodlen 2.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn rheoliad 2, yn y diffiniad o "corff gwasanaeth iechyd", mae nifer o gyrff wedi'u rhestru ond nid yw eu hystyr wedi'i ddiffinio ar gyfer y Rheoliadau hyn ac eithrio "Bwrdd Iechyd Lleol". Y cyrff a restrir heb ystyr diffiniedig yw GIG Lloegr, y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal, yr Awdurdod Ymchwil Iechyd, Awdurdod Iechyd Arbennig, Ymddiriedolaeth y GIG ac Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG.

**3. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn Atodlen 2, ym mharagraff 2, yn is-baragraff (2), mae'r geiriau agoriadol yn datgan "At ddibenion yr is-baragraff hwn…". Fodd bynnag, ymddengys mai'r bwriad yw diffinio ystyr y dyddiad euogfarn ar gyfer is-baragraff (1) ym mharagraff 2 o Atodlen 2. Felly, dylai ddatgan "At ddibenion is-baragraff (1)…" fel bod ystyr y dyddiad euogfarn yn gymwys i is-baragraff (1) o baragraff 2 yn Atodlen 2 (gweler paragraff 6(2) o Atodlen 2). i'r Rheoliadau hyn fel enghraifft sydd wedi'i drafftio'n gywir).

**4. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn Atodlen 2, ym mharagraffau 4(5)(a) a (d), a 5(b), mae'r term "Bwrdd Gofal Integredig" wedi'i ddefnyddio ond nid yw ei ystyr wedi'i ddiffinio at ddibenion y paragraffau hynny yn yr Atodlen honno.

**5. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn Atodlen 2, ym mharagraff 6(1)(a), mae'n cyfeirio at "Bwrdd Iechyd Lleol sydd wedi ei sefydlu o dan adran 11 o'r Ddeddf". Fodd bynnag, mae'r term "Bwrdd Iechyd Lleol" eisoes wedi'i

ddiffinio i olygu "Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru sydd wedi ei sefydlu yn unol ag adran 11(2) o'r Ddeddf" yn rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn. Felly, mae'r geiriau ychwanegol ym mharagraff 6(1) o Atodlen 2 yn ddiangen, ond maent hefyd ychydig yn wahanol i'r diffiniad a geir yn rheoliad 2.

**6. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Ym mharagraff 6(1)(b) ac (c) o Atodlen 2, rhoddir ystyr i'r termau "ymddiriedolaeth y GIG" ac "Awdurdod Iechyd Arbennig" i'r paragraff hwnnw fel rhai a sefydlwyd o dan adrannau 18 a 22 yn y drefn honno o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ("y Ddeddf"). Fodd bynnag, mae'r termau hyn hefyd yn cael eu defnyddio mewn rhannau eraill o'r Rheoliadau hyn ond nid ydynt wedi'u diffinio yn rheoliad 2. Felly, nid roddwyd ystyr iddynt ar gyfer darpariaethau eraill y Rheoliadau hyn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**7. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Yn rheoliad 2, yn y diffiniad o "y cyd-bwyllgor", cyfeirir at Gyfarwyddydau Cyd-bwyllgor Comisiynu Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2024 ond nid yw'n ymddangos eu bod wedi'u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Gall y ffaith nad yw'r Cyfarwyddydau hyn ar gael atal y cyhoedd rhag cael mynediad at gyfraith berthnasol yn y maes hwn. Yn ogystal, dylai fod troednodyn gyda'r rhif "LlC" ar gyfer y Cyfarwyddydau hyn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r pwyntiau adrodd.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 4 Mawrth 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Cyd-bwyllgor Comisiynu Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2024**

**Pwynt Craffu Technegol 1:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi’r pwynt a wneir ond yn ystyried bod y diffiniad ym mharagraff 4(6) o Atodlen 2 yn ddigon i wahaniaethu rhwng y ddau ystyr.

**Pwynt Craffu Technegol 2:** Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y byddai cynnwys diffiniad o’r cyrff hyn wedi bod yn fwy manwl gywir. O fewn y cyd-destun, fodd bynnag, mae’r bwriad a’r effaith gyfreithiol yn glir ac yn gywir. Byddwn yn manteisio ar y cyfle i fynd i’r afael â’r mater hwn yn ôl yr angen y tro nesaf y caiff y Rheoliadau eu diwygio.

**Pwynt Craffu Technegol 3:** Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai’r rhifo yn Atodlen 2, ym mharagraff 2, yn is-baragraff (2) fod wedi cyfeirio at “is-baragraff (1)”; ar y cyd â Chofrestrydd yr OSau rydym yn archwilio’r posibilrwydd o wneud y newid drwy gyfrwng slip cywiro.

**Pwynt Craffu Technegol 4:** Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y gallai cynnwys diffiniad o “Bwrdd Gofal Integredig” fod wedi bod yn fwy manwl gywir. O fewn y cyd-destun, fodd bynnag, mae’r bwriad a’r effaith gyfreithiol yn glir ac yn gywir. Byddwn yn manteisio ar y cyfle i fynd i’r afael â’r mater hwn yn ôl yr angen y tro nesaf y caiff y Rheoliadau eu diwygio.

**Pwynt Craffu Technegol 5:** Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod y cyfeiriad at adran 11 o’r Ddeddf o fewn Atodlen 2, ym mharagraff 6(1)(a), yn ddiangen. Mae i’r ddarpariaeth, fodd bynnag, yr effaith gyfreithiol gywir. Byddwn yn manteisio ar y cyfle i fynd i’r afael â’r mater hwn yn ôl yr angen y tro nesaf y caiff y Rheoliadau eu diwygio.

**Pwynt Craffu Technegol 6:** Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â’r pwynt a godir gan y Pwyllgor. Mae’r bwriad a’r effaith gyfreithiol, fodd bynnag, yn glir ac yn gywir. Byddwn yn manteisio ar y cyfle i fynd i’r afael â’r mater hwn yn ôl yr angen y tro nesaf y caiff y Rheoliadau eu diwygio.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 7:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi’r amryfusedd. Mae’r Cyfarwyddydau bellach wedi eu cyhoeddi ac ar gael er 29 Chwefror 2024.

# SL(6)455 – Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau Terfynau Ffioedd a Benthyciadau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio—

(a) Rheoliadau Addysg Uwch (Symiau) (Cymru) 2015 ("**Rheoliadau 2015**"),

(b) Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 ("**Rheoliadau 2017**"), ac

(c) Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 ("**Rheoliadau 2018**").

Mae Rheoliadau 2015 yn rhagnodi uchafswm y ffioedd dysgu y gall sefydliadau a chanddynt gynllun ffioedd a mynediad ei godi am gyrsiau israddedig llawnamser (ac uchafsymiau is mewn cysylltiad â chyrsiau penodol). Mae rheoliadau 3 i 6 yn diwygio Rheoliadau 2015 i gynyddu'r symiau hynny ar gyfer blynyddoedd academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2024.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys y crynodeb a ganlyn o'r capiau ffioedd dysgu diwygiedig:

| | **Presennol** | **Newydd** |
|---|---|---|
| Myfyriwr israddedig llawnamser | £9,000 | £9,250 |
| Blwyddyn olaf cyrsiau penodol | £4,500 | £4,625 |
| Blynyddoedd academaidd sy'n flynyddoedd lleoliad gwaith/rhyngosod | £1,800 | £1,850 |
| Blynyddoedd academaidd cyrsiau a ddarperir ar y cyd â sefydliad tramor | £1,350 | £1,385 |

Mae Rheoliadau 2017 yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr cymwys sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig sy'n dechrau cyn 1 Awst 2018. Mae rheoliad 7 yn gwneud cywiriadau i Reoliadau 2017.

Mae Rheoliadau 2018 yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr cymwys sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2018.  Mae rheoliad 8 yn diwygio Rheoliadau 2018 i gynyddu uchafswm y benthyciad at ffioedd dysgu sydd ar gael i gategorïau penodol o fyfyrwyr sy'n ymgymryd â chyrsiau gyda darparwyr arferol yng Nghymru, sy'n cyfateb i'r uchafswm uwch o ran ffioedd dysgu y cyfeirir ato uchod.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodir y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 7 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliadau 16(1), 19(1) ac 20(1) o Reoliadau 2017. Mae'r rheoliadau hynny'n gwneud darpariaeth i fyfyrwyr penodol fod yn gymwys i gael grantiau neu fenthyciadau at ffioedd mewn cysylltiad â'u presenoldeb ar gyrsiau dynodedig a ddarperir gan y cyrff a restrir yn rheoliad 5(1)(e) o Reoliadau 2017. Mae rheoliad 7 yn diwygio'r cyfeiriadau at y darparwyr hynny i gynnwys y cyrff a restrir yn rheoliad 5(1)(ea) o Reoliadau 2017 hefyd.

Disgrifir y diwygiadau a wneir gan reoliad 7 yn y nodyn esboniadol i'r Rheoliadau fel "cywiriadau". Nid oes cyfeiriad pellach at y diwygiadau hyn yn y Memorandwm Esboniadol ac nid yw'r rheswm dros wneud y diwygiadau hyn yn glir ar unwaith.

Felly, gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro diben y diwygiadau i Reoliadau 2017 a wneir gan reoliad 7.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 8 yn diwygio Rheoliadau 2018 i gynyddu uchafswm y benthyciad at ffioedd dysgu sydd ar gael i gategorïau penodol o fyfyrwyr sy'n ymgymryd â chyrsiau yng Nghymru.

Yn y diwygiadau a wneir gan reoliad 8, nodir eu bod yn ymwneud â blwyddyn academaidd "*Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1* ***Medi*** *2024*". Fodd bynnag, mae'r nodyn esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn nodi bod y cynnydd "*mewn cysylltiad â blynyddoedd academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1* ***Awst*** *2024*".

Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro'r cyfnod y mae'r benthyciadau uwch perthnasol yn gymwys iddo.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

3. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Ni fu unrhyw ymgynghori mewn cysylltiad â'r Rheoliadau hyn. Yn y Memorandwm Esboniadol, dywed Llywodraeth Cymru:

> *"Mae cynyddu gwerth y capiau ffioedd dysgu hyn yn ymateb uniongyrchol i'r pwysau chwyddiant parhaus a brofir gan ddarparwyr rheoleiddiedig. Mae'r rhain bellach yn rhy daer i'w hanwybyddu, yn enwedig felly pan fo cyllideb Llywodraeth Cymru dan bwysau eithriadol ac opsiynau eraill yn gyfyngedig. Er mwyn rhoi'r terfynau ffioedd newydd hyn ar waith cyn gynted â phosibl, a chaniatáu i ddarparwyr ddechrau cynyddu eu ffioedd a lleihau'r pwysau ariannol arnynt, penderfynwyd eu cyflwyno ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25 sy'n dechrau ar 1 Awst 2024. Roedd yr amser cyfyngedig a oedd ar gael i ddeddfu ar gyfer y newid hwn, o ystyried amseriad lansio gwasanaeth ymgeisio Cyllid Myfyrwyr Cymru ar gyfer israddedigion ym mis Mawrth 2024, yn golygu na fu modd cynnal ymgynghoriad."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r pwyntiau adrodd technegol.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 4 Mawrth 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau Terfynau Ffioedd a Benthyciadau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024**

Pwynt Craffu Technegol 1: Diben y diwygiadau i Reoliadau 2017 a wneir gan reoliad 7 yw cywiro hepgoriadau cynharach mewn perthynas â'r cyrsiau a restrir yn rheoliad 5(1)(ea) o'r Rheoliadau hynny, er mwyn sicrhau bod myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau o'r fath yn gallu cael cymorth at ffioedd.

Pwynt Craffu Technegol 2: Mae'r Nodyn Esboniadol yn dweud yn gywir y bydd y benthyciad uwch at ffioedd yn gymwys i flynyddoedd academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2024. Mae rheoliad 40 o Reoliadau 2018 yn cyfeirio at flynyddoedd academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi o ganlyniad i baragraff 1 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau hynny. Mae hynny'n pennu, at ddibenion Rheoliadau 2018, ddyddiad penodol ar gyfer dechrau blwyddyn academaidd drwy gyfeirio at y dyddiad y mae blwyddyn academaidd yn dechrau mewn gwirionedd. Yn achos blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar 1 Awst mewn gwirionedd, mae'r Rheoliadau'n barnu bod y flwyddyn academaidd yn dechrau ar 1 Medi.

# SL(6)457 – Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2024

## Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2024 ("y Rheoliadau") yn gosod y safonau ansawdd y bydd gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig yn cael eu rheoleiddio a'u harolygu yn eu herbyn o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016"). Bydd y Rheoliadau yn disodli'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Arbennig Preswyl a gafodd eu gwneud o dan adran 23(1) o Ddeddf Safonau Gofal 2000.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig mewn perthynas â:

- datganiadau blynyddol;
- gofynion ar unigolion cyfrifol mewn perthynas â chydymffurfedd, ansawdd, ac adolygu'r gwasanaeth, a sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei reoli'n effeithiol;
- gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau mewn perthynas â llywodraethu, addasrwydd y gwasanaeth, gwybodaeth am y gwasanaeth, yr amgylchedd, staffio, hyfforddi staff a diogelu;
- hysbysiad os bydd darparwr gwasanaeth yn marw neu wedi ei ddatod; a
- throseddau a hysbysiadau cosb.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y naw pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Defnyddir y term "gofal a chymorth" ym mhob rhan o'r Rheoliadau. Mae Adran 4 o Ddeddf 2016 yn rhoi ystyron penodol i "gofal", "cymorth" a "gofal a chymorth", ond nid yw'r Rheoliadau yn rhoi ystyr penodol i'r term. Mae Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn gymwys

i'r Rheoliadau hyn felly nid yw termau a ddiffinnir yn Neddf 2016 yn dwyn yr un ystyr yn y Rheoliadau. Gofynnir am eglurhad ynghylch a fwriedir i'r term "gofal a chymorth" gael yr un ystyr ag yn Neddf 2016, ac os felly, pam nad yw hyn wedi'i nodi yn y Rheoliadau.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae'r rheoliadau'n defnyddio'r ymadrodd "contract ar gyfer gwasanaethau" yn rheoliad 1 a rheoliad 31 ond nid yw'r term hwn wedi'i ddiffinio. Byddai'n ddefnyddiol cael rhagor o wybodaeth am yr hyn y mae'r term hwn yn ei gynnwys a sut y gellir ei wahaniaethu oddi wrth "gontract cyflogaeth" a ddefnyddir yn rheoliad 30 a rheoliad 31 ac sydd hefyd heb ei ddiffinio.

**3. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 1(3) yn diffinio tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) fel y dystysgrif y cyfeirir ati ym mharagraff 2 a pharagraff 3 o Atodlen 1. Mae'r geiriau "y dystysgrif" yn dynodi tystysgrif sengl ond mae paragraff 2 a pharagraff 3 yn cyfeirio at dystysgrifau gwahanol. Nid yw'n glir a yw'r ddwy dystysgrif yn dod o dan y diffiniad, ac os felly dylid defnyddio'r gair lluosog, neu a ddylid diffinio'r tystysgrifau ar wahân.

**4. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 1(3), yn y diffiniad o "unigolyn" ("individual"), defnyddiwyd yr ymadrodd "oni noda'r cyd-destun yn wahanol fel arall". Fodd bynnag, mae canllawiau drafftio Llywodraeth Cymru, sef Drafftio deddfau i Gymru, paragraff 4.8(5), yn nodi nad yw, yn gyffredinol, yn ddefnyddiol i'r darllenydd os defnyddir geiriad tebyg, ac y dylid ei egluro ble mae'r diffiniad yn gymwys neu'n anghymwys. Byddai rhagor o esboniad o gymorth felly yn hyn o beth.

**5. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 1(3), diffinnir "canlyniadau personol" ar gyfer plentyn fel y canlyniadau y mae'r plentyn yn dymuno eu cyflawni, neu'r canlyniadau y mae unrhyw bersonau sydd â chyfrifoldeb rhiant amdano yn dymuno eu cyflawni mewn perthynas â'r plentyn. Mae'n bosibl na fyddai dymuniadau'r plentyn a/neu'r un neu fwy o bobl â chyfrifoldeb rhiant amdano yr un peth, felly byddai o gymorth i gael eglurhad ynghylch sut y byddai canlyniadau personol y plentyn yn cael eu pennu mewn amgylchiadau o'r fath.

**6. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 47 yn ymdrin â chyflenwadau, ond nid yw'r gair hwn wedi'i ddiffinio ac nid oes dim rhagor o wybodaeth am beth mae "cyflenwadau" yn ei gynnwys. Byddai o gymorth i'r darllenydd gael rhagor o wybodaeth am yr hyn y mae "cyflenwadau" yn ei gynnwys.

7. **Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 79(3)(b) yn darparu ar gyfer addasiad i adran 21(2) o Ddeddf 2016. Nid yw geiriad rhagarweiniol yr addasiad yn rheoliad 79(3)(b) yn gwneud synnwyr. Mae'n ymddangos ei fod yn bwriadu dweud "fel pe bai wedi ei fewnosod ar ôl (a)", neu eiriau i'r perwyl hwnnw.

8. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft;**

Yn rheoliad 82(a), yn y testun Cymraeg, mae'r gwelliant yn anghywir oherwydd ei fod yn methu â nodi'n gywir destun y diffiniad o'r "Rheoliadau Gwasanaethau Maethu" yn rheoliad 2 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019.

Yn y testun Cymraeg, mae'r gwelliant yn nodi y dylid mewnosod y diffiniad newydd o'r "Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig" yn rheoliad 2 ar ôl "ystyr" "y Rheoliadau Gwasanaethau Maethu" ("the Adoption Services Regulations") yw Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019;"

Fodd bynnag, dylai'r geiriau Saesneg mewn cromfachau ac italig nodi "("the Fostering Services Regulations")" fel y'u ceir yn nhestun Cymraeg presennol y diffiniad o "the Fostering Services Regulations" yn rheoliad 2 o Reoliadau 2019, yn hytrach na "("y Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu")".

Yn ogystal, byddai'n fwy arferol disgrifio lleoliad y gwelliant drwy ddatgan, "ar ôl y diffiniad o "y Rheoliadau Gwasanaethau Maethu" mewnosoder…." yn hytrach na dyfynnu testun cyfan y diffiniad hwnnw.

9. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae paragraff 17 a pharagraff 35 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i wneud hysbysiad ynghylch "unrhyw niwed pwyso categori 3 neu 4 neu niwed pwyso nad oes modd ei osod ar unrhyw gam". Ni ddarperir unrhyw wybodaeth bellach ynglŷn â chategoreiddio niwed pwyso na beth sy'n gyfystyr â niwed pwyso nad oes modd ei osod ar unrhyw gam. Byddai gwybodaeth o'r fath yn helpu'r darllenydd i ddeall y gofynion o ran hysbysiadau.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 4 Mawrth 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2024**

**Pwynt Craffu Technegol 1:** Nodir y pwynt hwn. Byddwn yn sicrhau y caiff y Rheoliadau eu diwygio cyn eu gwneud i fynd i'r afael â hyn. Bydd y diffiniad, yn syml, yn cyfeirio at y diffiniadau presennol sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

**Pwynt Craffu Technegol 2:** Rydym yn ystyried bod dealltwriaeth eang ym maes cyfraith cyflogaeth o'r gwahaniaeth sylfaenol rhwng gweithwyr sy'n gweithio o dan gontract cyflogaeth a gweithwyr sy'n gweithio o dan gontract ar gyfer gwasanaethau. Gan hynny ni roddir eglurhad pellach o'r termau hyn yn y Rheoliadau hyn. Ni chynigir unrhyw ddiwygiadau.

**Pwynt Craffu Technegol 3:** Er bod y diffiniad yn cyfeirio at 2 dystysgrif, mae hyn yn annhebygol o fod yn broblem yn ymarferol oherwydd y bydd yn glir pa fath o dystysgrif y dylid gwneud cais amdani. Er bod cyfeiriad at 2 fath o dystysgrifau gallai fod angen y naill neu'r llall yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Efallai y bydd newid bach i'r geiriad o gymorth i'r darllenydd, ond nid yw hwn yn welliant brys sy'n ofynnol i'r Rheoliadau a bydd yn cael ei adolygu ar y cyfle cyntaf i'w ddiwygio.

**Pwynt Craffu Technegol 4:** Er y defnyddir y gair “unigolyn” nifer o weithiau mewn cyd-destunau gwahanol yn y Rheoliadau, rydym yn fodlon ei bod yn ddigon clir pan “noda’r cyd-destun” nad yw'r gair i'w ddehongli yn unol â'r diffiniad o “unigolyn” yn rheoliad 1(3). Gan hynny, ni chynigir unrhyw newidiadau.

**Pwynt Craffu Technegol 5:** Rydym yn fodlon bod cyfraith gyffredin sefydledig yn ymdrin â phan fydd barn plentyn i gael blaenoriaeth dros farn rhiant. Nid oeddem yn ystyried bod angen esboniad pellach yn y Rheoliadau hyn. Gan hynny, ni chynigir unrhyw newidiadau.

**Pwynt Craffu Technegol 6:** Bydd ystyr y term “cyflenwadau” yn amrywio'n fawr yn dibynnu ar yr amgylchiadau a'r math o ofal a roddir. Credwn y bydd y gair yn cael ei ddehongli fel un sydd â'i ystyr arferol yng nghyd-destun gofal a chymorth, felly ni roddwyd unrhyw esboniad pellach. Mae hyn yn unol â'r rheoliadau eraill sy'n defnyddio'r ymadrodd hwn. Gan hynny, ni chynigir unrhyw newidiadau.

**Pwynt Craffu Technegol 7:** Nodir y pwynt hwn. Byddwn yn sicrhau y caiff y Rheoliadau eu diwygio cyn eu gwneud i fynd i'r afael â hyn.

**Pwynt Craffu Technegol 8:** Nodir y pwynt hwn. Byddwn yn sicrhau y caiff y Rheoliadau eu diwygio cyn eu gwneud i fynd i'r afael â hyn.

**Pwynt Craffu Technegol 9:** Mae'r raddfa yn cael ei chydnabod yn gyffredin o fewn y maes, yn ogystal â'r term "niwed pwyso nad oes modd ei osod ar unrhyw gam". Mae hyn yn unol â'r rheoliadau eraill sy'n defnyddio'r ymadrodd hwn. Gan hynny, ni chynigir unrhyw newidiadau.

*Cywiriadau drafftio technegol i'w gwneud cyn gwneud y Rheoliadau*

| **CYWIRIADAU A WNAED I'R TESTUN CYMRAEG CYN GWNEUD** | **CYWIRIADAU A WNAED I'R TESTUN SAESNEG CYN GWNEUD** |
|---|---|
| **Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2024** | **The Special School Residential Services (Service Providers and Responsible Individuals) (Wales) Regulations 2024** |
| Mae "mae i "gofal a chymorth" ("*care and support*") a'r termau unigol "gofal" ("*care*") a "cymorth" ("*support*") yr un ystyr ag yn adran 3 o'r Ddeddf;" wedi ei fewnosod yn y diffiniadau. | Mae ""care and support" ("*gofal a chymorth*") and the individual terms "care" ("*gofal*") and "support" ("*cymorth*") have the same meaning as in section 3 of the Act;" wedi ei fewnosod yn y diffiniadau. |
| Yn rheoliad 79(3)(b) rhoddir "fel pe bai'r canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff (a)" yn lle "fel pe bai wedi ei fewnosod ar ôl (a)". | Yn rheoliad 79(3)(b) rhoddir "after paragraph (a) there were inserted" yn lle "it were inserted after (a)"". |
| Yn rheoliad 82(a) rhoddir "y diffiniad o "y Rheoliadau Gwasanaethau Maethu"" yn lle ""ystyr "y Rheoliadau Gwasanaethau Maethu" ("*the Adoption Services Regulations*") yw Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019;". | Yn rheoliad 82(a) rhoddir "the definition of "the Fostering Services Regulations"" yn lle ""the Fostering Services Regulations" ("*y Rheoliadau Gwasanaethau Maethu*") means the Regulated Fostering Services (Service Providers and Responsible Individuals) (Wales) Regulations 2019;". |
| Bydd mân faterion fel fformatio, mân newidiadau i'r nodyn esboniadol a'r troednodiadau a chywiro gwallau teipograffyddol hefyd yn cael eu cywiro cyn gwneud. | |

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Gweinidog yr Economi**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: VG-PO-068-24

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@senedd.cymru

4 Mawrth 2024

Annwyl Huw,

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i roi gwybod ichi am chweched cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE a gynhelir ar 06 Mawrth 2024.

Byddaf yn mynychu ar ran Llywodraeth Cymru. Bydd y cyfarfod yn cael ei gadeirio gan Leo Docherty AS, Gweinidog Llywodraeth y DU dros Ewrop yn y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO). Bydd y cyfarfod yn gyfle pellach i fynd i'r afael â blaenoriaethau'r pedair Llywodraeth mewn perthynas â Chytundeb Masnach a Chydweithredu y DU a'r UE, a chysylltiadau ehangach rhwng y DU a'r UE. Dyma gyfarfod cyntaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE ers ailsefydlu Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Byddaf yn rhoi diweddariad ar ôl y cyfarfod.

Rwy'n copïo'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, ac at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

CC:

Delyth Jewell, AS, Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.
Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref CG/PO/72/2024
Ein cyf/Our ref CG/PO/72/2024

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

5 Mawrth 2024

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol**

Yn dilyn fy llythyr ar 24 Chwefror ac yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, gallaf gadarnhau bod chweched cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol wedi'i aildrefnu i'w gynnal ar 12 Mawrth 2024.

Fi fydd yn cadeirio'r cyfarfod a bydd y testunau i'w trafod yr un fath.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd, ac at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Byddaf yn rhoi diweddariad ar ôl y cyfarfod.

Mick Antoniw

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Ein cyf/Our ref: CG/PO/50/2024

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

16 Chwefror 2024

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol**

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i roi gwybod ichi am chweched cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol a gynhelir ar 20 Chwefror 2024.

Fi fydd yn cadeirio'r cyfarfod, sef cyfarfod cyntaf y Pwyllgor ers ailsefydlu Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Rwy'n rhagweld y bydd y cyfarfod rhithwir hwn yn gyfle i drafod cysylltiadau rhynglywodraethol yn eu cyfanrwydd yn sgil dychweliad Gweinidogion Gogledd Iwerddon, yn ogystal â deddfwriaeth y DU a chydlyniant cymunedol. Byddaf hefyd yn tynnu sylw at yr adroddiad terfynol diweddar gan y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd, ac at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Byddaf yn rhoi diweddariad ar ôl y cyfarfod.



**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Gweinidog Newid Hinsawdd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: JJ/PO/0070/24

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Llŷr Gruffydd MS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

6 Mawrth 2024

Annwyl Huw, Llŷr,

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, i adrodd ar gyfarfod diweddaraf y Grŵp Rhyng-Weinidogol Sero-Net, Ynni a Newid Hinsawdd, a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2024. Canolbwyntiodd y cyfarfod ar y gyfres nesaf o ymgynghoriadau ar gyfer newidiadau i Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU.

Mynychwyd y cyfarfod hefyd gan Mairi McAllan MSP, Ysgrifennydd y Cabinet dros Sero Net a Just Transition, Andrew Muir MLA, Gweinidog Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig, Conor Murphy MLA, Gweinidog yr Economi, yr Arglwydd Martin Callanan, Is-Ysgrifennydd Gwladol y Senedd dros Effeithlonrwydd Ynni a Chyllid Gwyrdd, yr Arglwydd Byron Davies, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Drafnidiaeth, Gareth Davies AS, Ysgrifennydd Trysorlys y Trysorlys.

Yn gywir,



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Gweinidog Newid Hinsaw

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov. Cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi wrth ymateb.

Eitem 6.2

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Diwygio) 2024** |
| **DYDDIAD** | **04 Mawrth 2024** |
| **GAN** | **Lesley Griffiths AS, Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd** |

## Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Diwygio) 2024

Bydd Aelodau'r Senedd yn dymuno bod yn ymwybodol fy mod wedi rhoi cydsyniad i'r Gweinidog Bioddiogelwch, Iechyd Anifeiliaid a Lles arfer pŵer gwneud is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Gosodwyd Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Diwygio) 2024 ("y Rheoliadau") gerbron Senedd y DU ar 28 Chwefror 2024 gan yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol wrth arfer pwerau a roddwyd gan:

1. Erthygl 4(2) o Reoliad (EU) 2017/1004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar sefydlu fframwaith i'r Undeb ar gyfer casglu, rheoli a defnyddio data yn y sector pysgodfeydd ac ar gyfer cefnogi cyngor gwyddonol am y polisi pysgodfeydd cyffredin a roddir bellach i'r Ysgrifennydd Gwladol.

2. Adrannau 36(1)(b) a (c) y Ddeddf Pysgodfeydd 2020.
   Mae'r offeryn hwn yn gwneud diwygiadau i gyfraith ganlynol yr UE a ddargedwir:

a) Penderfyniad Gweithredu y Comisiwn (UE) 2019/909 yn sefydlu'r rhestr o arolygon a throthwyon ymchwil gorfodol at ddibenion rhaglen amlflwydd yr Undeb ar gyfer casglu a rheoli data yn y sectorau pysgodfeydd a dyframaethu;

b) Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/2239 sy'n pennu manylion gweithredu'r rhwymedigaeth lanio ar gyfer pysgodfeydd dyfnforol penodol yn nyfroedd Gogledd-orllewin Lloegr ar gyfer 2020-2021.

c) Penderfyniad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/910 yn sefydlu rhaglen amlflwydd yr Undeb ar gyfer casglu a rheoli data biolegol, amgylcheddol, technegol a chymdeithasol-economaidd yn y sectorau pysgodfeydd a dyframaethu.

d) Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 1393/2014 sy'n sefydlu cynllun gwaredu ar gyfer pysgodfeydd pelagig penodol yn nyfroedd Gogledd-orllewin Lloegr.

e) Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 1395/2014 sy'n sefydlu cynllun gwaredu ar gyfer pysgodfeydd pelagig bach a physgodfeydd at dibenion diwydiannol ym Môr y Gogledd; a

f) Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/2238 sy'n pennu manylion gweithredu'r rhwymedigaeth lanio ar gyfer pysgodfeydd dyfnforol penodol ym Môr y Gogledd ar gyfer 2020-2021.

**Gosodwyd y Rheoliadau gerbron Senedd y DU ar 28 Chwefror 2024 a byddant yn dod i rym ar 6 Ebrill 2024.**

Nid yw Rheoliadau 2024 yn ymrwymo Gweinidogion Cymru i fabwysiadu unrhyw safbwynt o eiddo Llywodraeth y DU ar y mater hwn.

Nid yw'r Rheoliadau yn lleihau nac yn tanseilio pwerau Gweinidogion Cymru mewn unrhyw ffordd, ac nid ydynt yn creu, diwygio nac yn dileu unrhyw swyddogaethau a roddir i Weinidogion Cymru.

Hoffwn sicrhau'r Senedd mai polisi Llywodraeth Cymru fel arfer yw deddfu dros Gymru ar faterion o fewn maes lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, mae manteision i gydweithio â Llywodraeth y DU pan fo sail resymegol glir dros wneud hynny. Y tro hwn, rwyf wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Rheoliadau hyn er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a hwylustod wrth newid polisi yn y dyfodol, er mwyn cydgysylltu gwaith ar draws y DU, ac er cysondeb.

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru:**

**Diben yr offeryn**

Mae'r Rheoliadau'n darparu bod cymhwyso'r Penderfyniad Rhaglen Amlflwydd a fydd yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2024 a'i Gynllun Gwaith cysylltiedig ar gyfer casglu a rheoli data pysgodfeydd yn cael ei ymestyn am ddwy flynedd hyd at 31 Rhagfyr 2026. Mae ymestyn y MAP yn sicrhau y bydd gan Gynlluniau Gwaith y DU o 2024 i ddiwedd 2026 sail ddeddfwriaethol (drwy gyfeirio at MAP cyfredol), gan gydlynu ar draws y Gweinyddiaethau Pysgodfeydd er mwyn parhau i gasglu data hanfodol

Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu bod dyddiad dod i ben 31 Rhagfyr 2024 ar gyfer yr eithriadau taflu sydd wedi'u cyfiawnhau'n wyddonol o'r Rhwymedigaeth Glanio yn cael ei ddileu. Bydd hyn yn sicrhau cydymffurfiad parhaus â'r rhwymedigaeth glanio tra bod Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd yn cael eu datblygu ar gyfer y stociau dan sylw.

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd caniatâd i Lywodraeth y DU wneud y Rheoliadau oherwydd, er fy mod yn cydnabod nad yw Gweinidogion Cymru yn arfer pwerau datganoledig yng Nghymru, rwy'n credu, o dan yr amgylchiadau presennol lle mae angen dull cyson o reoli pysgodfeydd ledled y DU, mae'n ddull pragmatig sy'n sicrhau defnydd effeithlon o adnoddau Llywodraeth Cymru i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU, wrth gynnal trefniadau llywodraethu priodol drwy Fframwaith Cyffredin y DU ar Reoli Pysgodfeydd Môr.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Lloegr) a Rheolaethau Swyddogol (Amlder Gwiriadau) (Diwygio) 2024** |
| **DYDDIAD** | **05 Mawrth 2024** |
| **GAN** | **Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd** |

Bydd Aelodau o'r Senedd yn dymuno cael gwybod ein bod yn rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Gofynnodd Rebecca Pow AS am gydsyniad ar ran yr Arglwydd Benyon, y Gweinidog Bioddiogelwch, Materion Morol a Gwledig, ac yna'r Arglwydd Douglas-Miller, y Gweinidog Bioddiogelwch, Iechyd a Lles Anifeiliaid yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), i wneud Offeryn Statudol (OS) o'r enw Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Lloegr) a Rheolaethau Swyddogol (Amlder Gwiriadau) (Diwygio) 2024.

Bydd yr OS uchod yn cael ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy arfer y pwerau sy'n cael eu rhoi o dan Reoliad (UE) 2017/625.

Mae'r Rheoliadau'n ehangu OS 2022/739. Byddant hefyd yn diwygio Atodiad 6 o'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol er mwyn sicrhau bod y 'gyfradd amlder briodol' ar gyfer nwyddau risg ganolig o'r UE, Liechtenstein a'r Swistir yn cael ei phennu gan Erthygl 53.

Cafodd yr OS ei osod gerbron Senedd y DU ar 04 Mawrth 2024. Bydd y Rheoliadau'n dod i rym ar 30 Ebrill 2024.

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Bydd yr Aelodau yn dymuno nodi nad yw'r Rheoliadau'n trosglwyddo unrhyw swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol.

**Diben y diwygiadau**

Dim ond darpariaethau penodol yn Rhan 3 o'r Rheoliadau yr wyf wedi rhoi cydsyniad ar eu cyfer. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod y darpariaethau eraill yn y Rheoliadau ar gyfer Cymru yn unig drwy Reoliadau Iechyd Planhigion etc (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2024.

Ar 30 Ebrill 2024, o dan Fodel Model Gweithredu Targed y Ffin, bydd gwiriadau mewnforio ar sail risg yn cael eu cynnal mewn Safleoedd Rheolaethau'r Ffin ar blanhigion ac ar gynhyrchion planhigion risg ganolig a fydd yn cael eu mewnforio o'r UE, Liechtenstein a'r Swistir Yn ogystal, bydd gwiriadau ar y dogfennau sy'n gysylltiedig â'r nwyddau hynny yn cael eu cynnal yn llai aml fel eu bod yn cyd-fynd â pha mor aml y bydd gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol yn cael eu cynnal. Yn unol â Model Gweithredu Targed y Ffin, ni fydd y newidiadau hyn yn cael eu cyflwyno mewn "porthladdoedd perthnasol" ar Arfordir y Gorllewin, gan gynnwys Abergwaun, Caergybi a Phenfro, tan 31 Hydref fan cynharaf.

Mae'r Rheoliadau'n ehangu OS 2022/739 er mwyn cynnwys y nwyddau risg ganolig o'r UE, Liechtenstein a'r Swistir yn y fframwaith a geir yn yr Offeryn hwnnw ar gyfer pennu pa mor aml y cynhelir gwiriadau ffisegol a gwiriadau adnabod. Byddant yn diwygio Atodiad 6 o'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol i sicrhau bod y 'gyfradd amlder briodol' ar gyfer nwyddau risg ganolig o'r UE, Liechtenstein a'r Swistir yn cael ei phennu gan Erthygl 53.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n rhoi'r manylion am darddiad, diben ac effaith y diwygiadau, ar gael yma:

The Plant Health (Fees) (England) and Official Controls (Frequency of Checks) (Amendment) Regulations 2024 (legislation.gov.uk)

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud yr offeryn hwn mewn perthynas â Chymru, ac ar ei rhan, gan fod yr OS yn ymwneud â maes datganoledig, ond, mae'r OS yn gweithredu ar draws Prydain Fawr ac yn cael effaith ar y cyfyngiadau ar fewnforio planhigion a chynhyrchion planhigion i Brydain Fawr. Gallai cyflwyno rheoliadau ar wahân yng Nghymru a Lloegr greu baich ychwanegol ar yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA), ac ar fusnesau, masnachwyr a thyfwyr. Mae rheoleiddio ar lefel Prydain Fawr yn sicrhau bod y llyfr statud yn gydlynol ac yn gyson, a bod y rheoliadau ar gael mewn un offeryn heb unrhyw risg o wahaniaethau yn neddfwriaeth Prydain Fawr.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddLJC@senedd.wales

5 Mawrth 2024

Annwyl Huw,

**Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Lloegr) a Rheolaethau Swyddogol (Amlder Gwiriadau) (Diwygio) 2024.**

Rwy'n cyfeirio at fy llythyr atoch dyddiedig 20 Chewfror 2024. Hoffwn hysbysu'r Pwyllgor fy mod wedi rhoi fy nghaniatâd i'r Gweinidog Gwladol osod Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Lloegr) a Rheolaethau Swyddogol (Amlder Gwiriadau) (Diwygio) 2024 mewn perthynas â Chymru. Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig sydd i'w weld yma.

Mae'r Rheoliadau yn gorgyffwrdd â pholisïau datganoledig a byddant yn gymwys i Gymru. Mae'r darpariaethau yn cwmpasu Cymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r Offeryn Statudol (OS) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol a chafodd ei osod gerbron Senedd y DU ar 04 Mawrth 2024, gyda dyddiad cychwyn o 30 Ebrill 2024.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, y tro hwn, ystyrir ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar lefel Prydain Fawr. Mae'r Rheoliadau'n ymwneud â maes datganoledig, fodd bynnag, maent yn effeithio ar fewnforio cynhyrchion planhigion a phlanhigion ar draws Prydain. Mae llawer o'r newidiadau yn y Rheoliadau yn ymwneud â mewnforio planhigion a chynhyrchion planhigion. Mae'r rhan fwyaf o'r nwyddau hyn sy'n dod i mewn i Gymru yn dod trwy borthladdoedd Lloegr a byddent yn ddarostyngedig i'w deddfwriaeth mewnforio. Gallai cyflwyno rheoliadau ar wahân yng Nghymru a Lloegr greu baich ychwanegol ar yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA), busnesau, masnachwyr a thyfwyr.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Bydd gohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg, ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae rheoleiddio ar lefel Prydain Fawr yn sicrhau llyfr statud cydlynol a chyson, gyda'r rheoliadau ar gael mewn un offeryn heb unrhyw risg o wahaniaeth deddfwriaethol ym Mhrydain Fawr. Yn ogystal, mae'n debygol y byddai gwneud Rheoliadau Cymru yn unig ar gyfer rhai darpariaethau o fewn yr OS hwn yn golygu goblygiadau ar gyflawni'r Model Gweithredu Targed y Ffin ehangach.

Rwyf wedi ysgrifennu yn yr un modd at Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: VG-PO-067-24

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

4 Mawrth 2024

Annwyl Huw,

Diolch i chi am roi copi i mi o adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel).

Rwyf wedi ystyried yr argymhellion yn yr adroddiad ac wedi amlinellu fy ymatebion isod:

**Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o wybodaeth am ei safbwynt mewn perthynas â chymal 2 o'r Bil, a chanlyniadau dymunol unrhyw ddiwygiadau yr hoffai iddynt gael eu gwneud i'r cymal.**

Nid yw ein safbwynt mewn perthynas â chymal 2 wedi newid, mae'n parhau fel y nodir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd ar 8 Rhagfyr 2023. Hoffem weld cymal 2 yn cael ei ddiwygio fel bod:

(a) cymal 2 yn cael ei roi i Weinidogion Cymru mewn perthynas â gweithredu Erthygl 8.6 o Gytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel (CPTPP) mewn meysydd datganoledig, neu

(b) cwmpas cymal 2 yn cael ei gyfyngu i ddiwygio is-ddeddfwriaeth sy'n bodoli ar yr adeg y daw cymal 2 i rym. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw ddarpariaeth ddatganoledig sy'n bodoli mewn is-ddeddfwriaeth ar hyn o bryd y gellid ei diwygio gan gymal 2, ac nid oes gennym reswm i feddwl y bydd hynny'n newid rhwng nawr a'r adeg pan ddaw cymal 2 i rym. Byddai lleihau cwmpas cymal 2 yn y modd hwn yn golygu na ellid ei ddefnyddio i ddiwygio darpariaeth ddatganoledig sydd wedi'i chynnwys yn y math o is-ddeddfwriaeth y mae'n gweithredu arni.

Fe wnaeth swyddogion hefyd gynnig gweithio gyda Llywodraeth y DU ar ddiwygiad addas.

Er bod Llywodraeth y DU wedi parhau i gynnal ei safbwynt bod y cymal hwn yn dod o fewn cymhwysedd a gedwir yn ôl, rydym yn parhau i anghytuno â'i hasesiad.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei hymgysylltiad â Llywodraeth y DU mewn perthynas â chymal 2 o'r Bil.**

Er bod ymgysylltu rhwng swyddogion Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi bod yn gadarnhaol ac yn ddefnyddiol yn bennaf, mae ein hymdrechion i berswadio Llywodraeth y DU i ddiwygio cymal 2 wedi bod yn aflwyddiannus yn y pen draw. Mae Llywodraeth y DU yn parhau i ystyried cymal 2 fel un a gedwir yn ôl ac felly nid yw'n fodlon gwneud unrhyw welliannau.

**Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru ailadrodd ac adeiladu ar y dull a ddefnyddiwyd wrth adrodd ar ei safbwyntiau ar y DU yn dod yn aelod o'r CPTPP ar gyfer cytundebau masnach rydd rhyngwladol yn y dyfodol y cytunwyd arnynt gan Lywodraeth y DU.**

Rwy'n croesawu'r sylwadau gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar adroddiad safbwynt Llywodraeth Cymru ar CPTPP ac rwy'n falch o glywed ei fod wedi helpu eich gwaith craffu ar y memoranda. Hoffwn sicrhau'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y gallwch ddisgwyl dull tebyg o ran trafodaethau'r DU yn y dyfodol, pan fydd y wlad, neu'r gwledydd, yn ddigon arwyddocaol.

Rwy'n gobeithio bod yr ymatebion yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

HOUSE OF LORDS

House of Lords
London
SW1A 0PW

Rt Hon Michael Gove MP
Secretary of State for Levelling Up, Housing and Communities,
and Minister for Intergovernmental Relations
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

5 March 2024

Dear Secretary of State,

**Scrutiny of Common Frameworks**

Thank you for your letter dated 19 December 2023, in response to the letter sent to you following the meeting of the Interparliamentary Forum held at the Scottish Parliament on 27 October 2023.

The fifth meeting of the Interparliamentary Forum was held at the House of Lords on 29 February 2024. We agreed this statement published here: https://www.parliament.uk/business/news/2024/february-2024/interparliamentary-forum-february-2024-meeting/

We discussed issues of common interest including the operation of the arrangements for intergovernmental relations that have been in place since 2022 and the legislative consent process.

We also had a further discussion about scrutiny of Common Frameworks by our legislatures, in light of your reply. Following the formation of a new Northern Ireland Executive on 3 February 2024, we firmly believe that it may now be possible for some further progress to be made towards finalising the 28 Common Frameworks that are currently operating on a provisional basis. This will support scrutiny of Common Frameworks by enabling the agreed annual reporting to take place. The Committee for the Executive Office in the Northern Ireland Assembly will be prepared to take this issue up with the Northern Ireland Executive. We note that two proposed frameworks – on Mutual Recognition of Professional Qualifications and on Services – are not yet provisional and ask you to clarify the status of these frameworks in your reply.

The evaluation of the entire Common Frameworks process that you refer to in your letter as being due for publication this Spring will be of interest across each of our legislatures. We agreed to write to you requesting that details of the outcomes of this review be provided to us in a response to this letter once it is complete, so that these can be considered at the next meeting of the Forum. We would also be interested in your views about the role that the Interparliamentary Forum could play in future monitoring of Common Frameworks.

We are copying this letter to Michelle O'Neill MLA, First Minister of Northern Ireland; Emma Little-Pengelly MLA, deputy First Minister of Northern Ireland; Rt Hon Angus Robertson MSP, Cabinet Secretary for Constitution, External Affairs and Culture in the Scottish Government; and Mick Antoniw MS, Counsel General and Minister for the Constitution in the Welsh Government.

Yours sincerely,



Baroness Drake

Chair, House of Lords Constitution Committee

Eitem 7.3

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Ein cyf/Our ref: RE/78/2024

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru

06 Mawrth 2024

Annwyl Huw,

Ar 8 Medi 2022, cafodd Deddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022[1] ('y Ddeddf') y Cydsyniad Brenhinol. Mae'r Ddeddf yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, i wneud rheoliadau ar gyfer gwneud y newidiadau angenrheidiol neu briodol i fynd i'r afael â'r pedwar diben penodedig a ganlyn:

- sicrhau na osodir treth gwarediadau tirlenwi neu dreth trafodiadau tir pan fyddai gwneud hynny yn anghydnaws ag unrhyw rwymedigaethau rhyngwladol;
- amddiffyn rhag osgoi trethi mewn perthynas â threth gwarediadau tirlenwi neu dreth trafodiadau tir;
- ymateb i newid i dreth ragflaenol sy'n effeithio, neu a allai effeithio, ar y symiau a delir i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru o dan adran 118(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;
- ymateb i benderfyniad llys neu dribiwnlys sy'n effeithio, neu a allai effeithio, ar weithrediad unrhyw un neu ragor o Ddeddfau Trethi Cymru neu reoliadau a wneir o dan unrhyw un neu ragor o'r Deddfau hynny.

Yn ystod gwaith craffu'r Senedd[2], cyflwynwyd nifer o welliannau i'r bil i fynd i'r afael â phryderon y Pwyllgor ac Aelodau'r Senedd. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- rhwymedigaeth ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi adolygiad o'r Ddeddf (adran 6 o'r Ddeddf) erbyn 8 Medi 2026 (bedair blynedd ar ôl y Cydsyniad Brenhinol);

[1] Deddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022 (legislation.gov.uk)
[2] Deddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022 (senedd.cymru)

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- cymal machlud (adran 7 o'r Ddeddf) a fydd yn cael effaith ar 8 Medi 2027 (yn amodol a fydd y Senedd yn cymeradwyo estyniad tan 30 Ebrill 2031 fan bellaf).

Ymhellach i hyn, roedd adran 6 hefyd yn darparu fel bod yn rhaid i'r adolygiad hwnnw gynnwys asesiad gan Weinidogion Cymru o fecanweithiau deddfwriaethol amgen ar gyfer gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru a rheoliadau a wneir o dan unrhyw un o'r Deddfau hynny. At hynny, wrth gynnal yr adolygiad, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â Senedd Cymru ac unrhyw bersonau eraill y maent yn eu hystyried yn briodol.

Er mwyn i'r adolygiad, gan gynnwys unrhyw ymgynghori perthnasol a phriodol, gael ei gwblhau erbyn y dyddiad cau statudol, hoffwn gynnig cyfle i'r Pwyllgor gael cyflwyniad byr gan fy swyddogion. Ystyried y dull o fynd ati i wneud newidiadau amserol i Ddeddfau Trethi Cymru etc. a chlywed unrhyw awgrymiadau y gallai fod gan y Pwyllgor ynghylch mecanweithiau deddfwriaethol amgen priodol fydd y bwriad.

Rwy'n gwneud cynnig tebyg i'r Pwyllgor Cyllid.

Os yw hynny'n dderbyniol, bydd fy swyddogion yn cysylltu â'r Clerc i wneud y trefniadau priodol.

Yn gywir



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

**Lee Waters AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**
**Deputy Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JJ/2983/23

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@senedd.cymru

6 Mawrth 2024

Annwyl Huw

Rwy'n ysgrifennu atoch i ymateb yn ffurfiol i adroddiad eich Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf ar y Bil Cerbydau Awtomataidd. Rwy'n ddiolchgar iawn am yr ystyriaeth rydych wedi'i roi i'r mater hwn.

Mae fy ymateb i'r argymhellion hynny fel a ganlyn:

> "**Argymhelliad 1.** Dylai'r Gweinidog roi rhagor o fanylion i'r Pwyllgor hwn erbyn 14 Mawrth 2024 ar y diwygiadau penodol y mae Llywodraeth Cymru yn gofyn amdanynt i gymal 93 a'r hyn y byddent yn gallu ei wneud gyda'r pŵer gwneud rheoliadau sy'n cael ei geisio. Dylai'r Gweinidog hefyd roi diweddariad ar y trafodaethau perthnasol gyda Llywodraeth y DU."
>
> Ymateb: Derbyn. Mewn perthynas â chymal 93, rydym yn ceisio darpariaeth sy'n rhoi pŵer tebyg i Weinidogion Cymru i un yr Ysgrifennydd Gwladol o dan gymal 93(1) i wneud darpariaeth drwy reoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod rheoleiddio traffig ddarparu gwybodaeth ragnodedig am fesur rheoleiddio traffig perthnasol. Mae trafodaethau gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn datblygu'n dda. Byddai hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru, er enghraifft, i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fel awdurdodau priffyrdd gynhyrchu Gorchmynion Rheoleiddio Traffig mewn fformat ddigidol y gellid ei ddarllen gan gerbydau awtomataidd a/neu feddalwedd a dyfeisiau cymorth gyrru electronig, ar yr amod eu bod wedi'u bodloni yn unol â chymal 93(4) bod angen darparu gwybodaeth yn unol â'r rheoliadau er mwyn sicrhau ei fod ar gael i gerbydau ymreolaethol neu offer electronig sydd wedi'u cynllunio i yrru cerbydau eraill ar y ffyrdd neu i hwyluso hynny..

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Goblygiadau Ariannol: Dim.

“**Argymhelliad 2.** Byddem yn croesawu eglurhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch pryd y penderfynodd ddefnyddio'r Bil ar gyfer y darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer a sut mae'r penderfyniad hwn yn ymwneud â'i deddfwriaeth arfaethedig ei hun y cyfeiria ati ym mharagraff 23 o'r memorandwm cydsyniad deddfwriaethol."

Ymateb: Derbyn. Ni ofynnwyd am y darpariaethau sydd ar hyn o bryd yn y Bil sy'n gofyn am gydsyniad y Senedd gan Lywodraeth Cymru; fe'u drafftiwyd ar gais Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, rydym o'r farn ei bod yn briodol i'r darpariaethau hyn gael eu gwneud yn y Bil am y rhesymau a amlinellir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Nid yw'r darpariaethau hyn o fewn cwmpas ein deddfwriaeth arfaethedig ac felly nid ydynt yn cael unrhyw effaith arno.

Goblygiadau Ariannol: Dim.

Deallaf fod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol a osodwyd ar 13 Chwefror wedi cael ei gyfeirio at eich Pwyllgor ac edrychaf ymlaen at dderbyn canlyniadau eich ystyriaeth.

Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am y Bil a byddwn yn hapus i ddarparu rhagor o wybodaeth maes o law os byddai hynny'n helpu'r Pwyllgor.

Yn gywir,



**Lee Waters AS**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 13

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**
**Minister for Social Justice**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

E-bost - Llywydd@senedd.cymru

22 Tachwedd 2023

Annwyl Elin

Cyflwynodd Llywodraeth y DU'r Bil Cyfiawnder Troseddol i Dŷ'r Cyffredin ar 14 Tachwedd 2023.

Mae'r Bil yn cynnwys ystod eang o fesurau sy'n effeithio ar feysydd megis troseddau cyllyll, profion cyffuriau adeg arestion, ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddau difrifol a threfnedig, Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, capasiti mewn carchardai a'r broses ddedfrydu. Mae hefyd yn cynnwys y ddeddfwriaeth olynol yn achos Deddf Crwydraeth 1824, a dyletswydd gonestrwydd newydd ar gyfer plismona, ymhlith pethau eraill.

Mae fy swyddogion wedi bod yn ymgysylltu â swyddogion yn y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, sydd wedi cynnwys rhannu amlinelliad o'r mesurau y disgwylir eu cyflwyno fel rhan o'r Bil. Er hynny, ni chafodd swyddogion weld y fersiwn derfynol o'r Bil yn llawn lai na 24 awr cyn iddo gael ei gyflwyno.

Mae'r Bil yn cynnwys 17 o rannau ac mae'n 156 tudalen o hyd. O'n dadansoddiad cychwynnol, ymddengys fod y Bil yn cyffwrdd â meysydd cymhwysedd datganoledig. Er hynny, o gofi ehangder y Bil a'r diffyg cyfle i'w weld yn llawn ymlaen llaw, ni fu modd eto ystyried canlyniadau'r hyn sy'n cael ei gynnig o safbwynt datganoli yn llawn.

Rwyf yn bwriadu gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ac unrhyw ddatganiadau perthnasol eraill gerbron y Senedd cyn gynted ag y bydd gennym ddarlun clir o ganlyniadau'r ddeddfwriaeth arfaethedig o safbwynt datganoli. Er hynny, mae'n debygol y bydd hyn y tu allan i'r terfyn amser arferol o bythefnos yn Rheol Sefydlog 29.


Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, Mick Antoniw AS; y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a’r Trefnydd, Lesley Griffiths AS a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad,
Huw Irranca-Davies AS.



**Jane Hutt AS/MS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

Huw Irranca-Davies MS
Chair of the Legislation, Justice and Constitution Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
CF99 1SN

CC: John Griffiths MS, Chair of the Local Government and Housing Committee

March 2024

Dear Huw Irranca-Davies MS,

I write to you as Chair of the Legislation, Justice and Constitution Committee on behalf of the following homeless charities and housing organisations which operate in Wales, Crisis, CIH Cymru, Cymorth Cymru, Llamau, Salvation Army, Shelter Cymru, Tai Pawb and The Wallich.

We understand the Committee is tasked with reporting on the Criminal Justice Bill by 22nd March. In light of this, we wanted to share with you our grave concerns regarding the impact of the proposed clauses within this Bill around "nuisance begging" and "nuisance rough sleeping."

In 2022, politicians from across the political spectrum (including in the Senedd[1]), people with lived experience of homelessness and homeless charities, celebrated the decision to scrap the archaic Vagrancy Act. However, this legislation remains in place and proposals within the UK Government's Criminal Justice Bill seek to reinstate some of the most problematic aspects of this ancient law, which would continue to criminalise homelessness.

These problematic proposals include police powers to move people on, fine up to £2,500, or imprison a person who is, or even looks as though they are intending to, sleep rough or beg. The proposals also place an emphasis on people who "have an excessive smell" and opens the door for people to be judged according to their housing status.

These measures are dehumanising and could not be further from the general direction of travel in Wales, as outlined in the Ending Homelessness National Action Plan and recently published White Paper on Ending Homelessness.

No one should be punished for being homeless. We know that people who are pushed into sleeping rough already face violence, stigmatisation, isolation and increased health risks. Crisis previously conducted research, drawing on a survey of 458 people sleeping rough in England and Wales. The research found that almost 8 out of 10 had suffered some sort of violence, abuse or anti-social behaviour, including 35% that had been deliberately hit or kicked.[2]

---

[1] See Written Statement: Police Crime Sentencing and Courts Act (7 June 2022) | GOV.WALES
[2] See here.

Fining or moving people on who have nowhere to go does not solve homelessness. That is why Crisis, alongside 38 partner organisations, including Wales-based organisations, are calling for these clauses to be dropped from the Bill.

We believe that these clauses within the Bill will cause people who are sleeping rough to be displaced into less safe areas. In addition, it will create a break down in trust between people forced to sleep on the streets and the organisations and authorities that can provide them with support. The recently published Ending Homelessness White Paper contains proposals for significant improvements in person-centred support for people experiencing homelessness in Wales. However, these reforms rely on people seeking the support of services. If enacted, the proposals within the Criminal Justice Bill could drive people who are experiencing street homelessness further away from the doors of housing options and from accessing this crucial support.

The proposed Bill also seems to be at stark odds with the Wales Safer Communities Network, which seeks a multi-agency and collaborative approach to reducing crime and increasing community safety.

For these reasons, we support the concerns outlined within the Welsh Government's recently published Legislative Consent Memorandum and agree that "rather than a punitive approach to rough sleeping behaviour, [...] psychologically-informed environments and trauma-informed responses should underpin all interactions with those rough sleeping."[3]

We urge the Committee to also take a firm stance on these highly problematic aspects of the Bill, which fail to address the underlying causes of homelessness and instead serve to perpetuate street sleeping.

If you would like any further information on the Bill, please do not hesitate to get in touch.

Kind Regards,

[3] https://senedd.wales/media/qgupnrtu/lcm-ld16294-e.pdf